# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT

*Gwybodaeth*

### 36 Ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau a defnyddio gwybodaeth gan awdurdodau

(1) Os bydd awdurdod trwyddedu yn gofyn i awdurdod tai lleol ddarparu gwybodaeth iddo y mae is-adran (2) yn gymwys iddi ac sydd ei hangen arno at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r awdurdod tai lleol gydymffurfio â'r cais oni bai bod yr awdurdod tai lleol yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r awdurdod tai lleol ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r awdurdod tai lleol.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i unrhyw wybodaeth y mae awdurdod tai lleol wedi cael gafael arni wrth iddo arfer—

(a) ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol;

(b) ei swyddogaethau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y dreth gyngor).

(3) Dylid trin gwybodaeth a ddaeth i law awdurdod tai lleol o dan adran 134 o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (budd-dal tai) cyn i'r adran honno gael ei diddymu gan Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Lles 2012 fel gwybodaeth y mae is-adran (2) yn gymwys iddi.

(4) Os bydd awdurdod trwyddedu yn gofyn i awdurdod trwyddedu arall ddarparu gwybodaeth iddo y mae is-adran (5) yn gymwys iddi ac sydd ei hangen arno at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r awdurdod arall gydymffurfio â'r cais oni bai bod yr awdurdod arall yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer ei swyddogaethau.

(5) Mae'r is-adran hon yn gymwys i unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i law awdurdod trwyddedu wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(6) Caiff awdurdod trwyddedu ddefnyddio unrhyw wybodaeth y mae is-adran (2) neu (5) yn gymwys iddi (pa un a yw wedi ei chael o dan is-adran (1) neu (4) ai peidio) at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon.

(7) Os bydd awdurdod tai lleol yn gofyn i awdurdod trwyddedu ddarparu gwybodaeth iddo y mae is-adran (5) yn gymwys iddi ac sydd ei hangen arno at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gydymffurfio â'r cais oni bai bod yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r awdurdod ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer ei swyddogaethau.

(8) Caiff awdurdod tai lleol ddefnyddio unrhyw wybodaeth y mae is-adran (2) neu (5) yn gymwys iddi (pa un a yw wedi ei chael o dan is-adran (7) ai peidio) at unrhyw ddibenion sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 36 mewn grym ar 23.11.2015 gan O.S. 2015/1826, **ergl. 2(r)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 36.